**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**

**PWNC:** **PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL - DYDD LLUN, 28 CHWEFROR 2022 DYDD LLUN, 28 CHWEFROR 2022**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: M. MOORE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr:
C. Meredith (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
M. Cook
M. Day
P. Edwards
S. Healy
W. Hodgins
J. Holt
J. C. Morgan
L. Parsons
B. Summers
L. Winnett

A:

| **EITEM** | **PWNC** | **GWAITH** |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 15 TACHWEDD 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021, yn cynnwys:<br><br>*<u>Gorfodaeth Parcio Sifil</u>*<br><br>Gofynnodd Aelod am ddiweddariad hyd at ddiwedd Chwefror 2022 ar gyfer Nantyglo, a chadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Swyddog yn rhoi diweddariad i bob Aelod ar gyfer eu ward.<br><br>Holodd Aelod arall os oes nifer ddigonol o Swyddogion Gorfodaeth yn y Fwrdeistref.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol mai nifer staff llawn swyddogion gorfodaeth oedd dau. Fodd bynnag, mae un Swyddog Gorfodaeth wedi gadael yn ddiweddar ac mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi i lenwi'r swydd wag. O ran os oedd y nifer yn ddigonol, cadarnhaodd y Swyddog y daethpwyd â'r adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor a'i fod yn gyfle i Aelodau adolygu'r gwasanaeth. Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf ym mis Tachwedd 2021 a chytunwyd i'r trefniadau cyfredol.<br><br>*<u>Dalen Weithredu – 4 Hydref (diweddariad ar Catch 22)</u>*<br><br>Dywedodd Aelod yr adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf fod Catch 22 yn ystyried Trosglwyddo Ased Cymunedol o naill ai Ganolfan Adnoddau Rasa neu Ganolfan Gymuned Drenewydd. Mae'r nodyn ar y Ddalen Weithredu yn dweud fod y sefydliad yn ystyried TAC ar gyfer darparu Canolfan Anawsterau Cymdeithasol Emosiynol ac Ymddygiadol, fodd bynnag dywedodd yr Aelod fod Prif Weithredwr Catch 22 wedi dweud mewn adroddiad diweddar yn y wasg ei fod ar gyfer dibenion Canolfan Anghenion Dysgu Ychwanegol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ar y mater. Mynegodd bryder hefyd am y cynigion a dywedodd y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Swyddog perthnasol yn bresennol. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'r defnydd a gynigir ar gyfer yr adeilad yn dod dan orchwyl y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>Soniodd yr Aelod y cafodd y TAC ei drafod yn y cyfarfod diwethaf ac y daethpwyd â gwybodaeth yn ôl i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, cytunodd y dylai'r mater fod wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gofynnodd i hynny cael ei wneud ac i ddiweddariad gael ei roi i Aelodau.<br><br>*Teithio Llesol a Llwybrau Diogel i Gymunedau (Llwybr Cebl)*<br><br>Cododd Aelod bryderon fod y llwybr cebl yn dal ar gau oherwydd cyfyngiadau Covid. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y cynhelir asesiad risg. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad i agor y llwybr cebl fod yn gydnaws gyda pholisi gweithle ehangach y Cyngor sy'n dal i fod dan gylch gorchwyl gweithgareddau hanfodol yn unig.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. | |
| **No. 6** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2022.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 7** | **GWEITHGAREDD GORFODAETH TIPIO ANGHYFREITHLON 2021/22**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Rheolwr Tîm Gwasanaethau Gorfodaeth Rheng Flaen.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Gwasanaeth Gorfodaeth Rheng Flaen yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar weithgareddau gorfodaeth yr Awdurdod yng nghyswllt tipio anghyfreithlon a throseddau rheoli gwastraff eraill a lefel y gweithgaredd tipio anghyfreithlon ym | |

Mlaenau Gwent am y flwyddyn 2021/22.

Aeth y Swyddog drwy’r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.

Gofynnodd Aelod os oedd y system archebu a weithredir ar gyfer y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yn cael effaith niweidiol ar dipio anghyfreithlon.

Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth fod y system archebu, a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig Covid, yn cael ei hadolygu ac opsiynau’n cael eu hymchwilio. Fodd bynnag dywedodd fod yr adroddiad yn dangos fod tipio anghyfreithlon wedi gostwng yn y 12 mis diwethaf.

Gofynnodd Aelod os y gellid defnyddio CCTV mewn ardaloedd problem.

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm Gwasanaethau Gorfodaeth Rheng Flaen fod nifer o leoliadau yn cael eu hystyried a’u blaenoriaethu, ond y byddai’n hapus i gael mewnbwn gan Aelodau.

Mynegodd Aelod arall bryder am nifer isel yr hysbysiadau cosb sefydlog a gyhoeddwyd ar gyfer tipio anghyfreithlon.

Esboniodd y Swyddog y cafodd 424 cwyn am dipio anghyfreithlon eu hymchwilio gan Wardeniaid Gorfodaeth. Fodd bynnag nid yw mwyafrif y deunyddiau a gaiff eu tipio yn cynnwys unrhyw dystiolaeth i’r Wardeiniaid Gorfodaeth weithredu arno. Yn y dyfodol caiff yr Hysbysiadau Cosb Sefydlog eu rhoi ar lefel is o dystiolaeth felly rhagwelir y byddai’r ffigurau’n cynyddu’n sylweddol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog fod y Cyngor wedi gweithio’n agos gyda Stad Dug Beaufort am dipio anghyfreithlon a hefyd gyda phartneriaid a pherchnogion tir preifat arall i gael gwastraff wedi ei symud cyn gynted ag oedd modd.

Dilynodd trafodaeth pan eglurodd Swyddog bwyntiau a godwyd gan Aelodau.

Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar gasgliadau lon gefn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau

| | | |
|---|---|---|
| | Cymdogaeth y cafodd rhai casgliadau lon gefn eu hadfer ond fod gwaith yn dal i'w wneud.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r gwaith parhaus ar reoleiddio gwastraff a datblygu'r Gwasanaeth Gorfodaeth Rheng Flaen (Opsiwn 1). | |
| **No. 8** | **<u>ADDASIADAU I'R ANABL – CYNNIG DIWYGIO POLISI I DDILEU PRAWF MODD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a Rheolwr Tîm Datrysiadau Tai a Chydymffurfiaeth.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad sy'n gofyn am farn Aelodau yng nghyswllt y diwygiad polisi arfaethedig a fyddai'n dileu'r prawf modd presennol ar gyfer grantiau ar gyfer addasiadau i'r anabl ym Mlaenau Gwent.<br><br>Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnodd sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Dilynodd trafodaeth faith yng nghyswllt y prawf modd ar gyfer addasiadau mawr.<br><br>Cafodd opsiwn 1 ei gynnig gan Aelod gyda'r diwygiad dilynol, sef 'cadw'r prawf modd ar gyfer addasiadau mawr ar raddfa lithro'.<br><br>Eiliwyd y cynnig.<br><br>Cafodd Opsiwn 2 ei gynnig gan Aelod arall, ac eiliwyd hynny.<br><br>Mewn pleidlais, CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Aelodau'n cefnogi'r diwygiad polisi arfaethedig fyddai'n tynnu'r prawf modd presennol ar gyfer grantiau ar gyfer addasiadau i'r anabl ym Mlaenau Gwent o 1 Ebrill 2022 a chadw'r prawf modd ar gyfer addasiadau mawr ar raddfa lithro (Opsiwn 1). | |
| **No. 9** | **<u>YMESTYN CONTRACT – GWASANAETH TRINIAETH RHEOLI PLA HYD 31 RHAGFYR 2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y gwasanaeth triniaeth rheoli pla a ddarperir gan Rentokil ar hyn o bryd. Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Gofynnodd Aelod os y cafodd cwmnïau lleol eu hystyried ar gyfer y contract.<br><br>Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog y gweithredwyd fframwaith caffael y Cyngor. Dywedodd y gallai cwmni cenedlaethol hefyd fod â gwytnwch o fewn y gweithlu na fyddai efallai gan gwmni lleol llai.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan eglurodd y Swyddog bwyntiau a godwyd gan Aelod.<br><br>Cynigiodd Aelod Opsiwn 2 gydag argymhelliad i'r Pwyllgor Gweithrediaeth y dylid cynnal gwaith caffael lleol ar gyfer y gwasanaeth ar ddiwedd y contract (31 Mawrth 2023).<br><br>Eiliwyd y cynnig.<br><br>Fe wnaeth Aelod arall gynnig Opsiwn 1 ac eiliwyd hynny.<br><br>Mewn pleidlais, CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Aelodau'n nodi perfformiad y gwasanaeth a pharhad y contract gyda Rentokil tan 31 Mawrth 2023, pan y byddai'n cael ei adolygu a'i ail dendro, fel sydd angen, yn unol â rheolau corfforaethol ar Gaffael (Opsiwn 1). | |